# Llwybr Datblygu'r Gymraeg 2023-24



*Bethan Griffiths*
*bethan.griffiths@pcydds.ac.uk*

**Darlith 10 ac 11**
**Dydd Mercher, 22ain o Dachwedd 2023**

# Nod y ddarlith



<u>Adolygu ac Atgyfnerthu</u>

- Adolygu gwallau cyffredin ac atgyfnerthu rheolau iaith y darlithoedd blaenorol.
- Addyseg - rhoi syniadau ar waith.

# Adolygu ac Atgyfnerthu Rheolau Iaith y tymor



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Centre for Education
RHAGORiaith
www.athrofa.cymru

# Adolygu Rhannau Ymadrodd



# Beth ydy ystyr y termau hyn?



rhifolion

trefnolion





# Rhifolion a'r treigladau



Sawl rheol ydych chi'n cofio?



# RHIFO












| | |
|---|---|
| **un ci** | **un gath** |
| **dau gi** | **dwy gath** |
| **tri chi** | **tair cath** |
| **pedwar ci** | **pedair cath** |
| **pum ci** | **pum cath** |
| **chwe chi** | **chwe chath** |

y ci hwn



Cofiwch!
Mae enw benywaidd unigol yn treiglo'n feddal ar ôl y fannod.

y gath hon






Fideo Treiglad Meddal: ‘Dau’ a ‘Dwy’

https://www.youtube.com/watch?v=rVENuevjEX4

# Rhifo yn Gymraeg

<u>Dull degol</u> (ers y 19eg ganrif) – un deg un, un deg dau ayyb…

<u>Dull ugeiniol / cyfansawdd</u> – Y system ugeiniol yw'r un hynaf. Mae'r ffordd hon yn fwy ffurfiol.

*Mae'n cynnwys y canlynol wedi'r deg:*

> *un ar ddeg, deuddeg, tri ar ddeg, pedwar ar ddeg, pymtheg, un ar bymtheg, dau ar bymtheg, deunaw, pedwar ar bymtheg, ugain (20), deg ar hugain (30), deugain (40), hanner cant (50), trigain (60), pedwar ugain (80), deg a phedwar ugain (90)*



COFIWCH … rydyn ni'n defnyddio'r dull cyfansawdd pan fyddwn ni'n trafod <u>arian, oedran ac amser</u>

unwaith

dwywaith

tair gwaith (teirgwaith)

pedair gwaith

| | | |
|---|---|---|
| Darllenwch | y gerdd | unwaith. |
| Gwnewch | hyn | ddwy waith. |
| Canwch | y pennill | dair gwaith. |
| Neidiwch | i fyny ac i lawr | bedair gwaith. |
| Rhedwch | yn ôl ac ymlaen | bum gwaith |
| Rhedwch | o gwmpas y cae | ddeg gwaith. |

Cofiwch - Mae'r adferf yn treiglo'n feddal



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education | RHAGORiaith www.athrofa.cymru

# Dyddiadau


Penblwydd Hapus


y dyddiad
1 2 3 4 5 6 7
8 9 10 11 12 13 14
15 16 17 18 19 20 21
22 23 24 25 26 27 28
29 30 31



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| y cyntaf<br>**1af** | yr ail<br>**2il** | y trydydd<br>**3ydd** | y pedwerydd<br>**4ydd** | y pumed<br>**5ed** | y chweched<br>**6ed** | y seithfed<br>**7fed** |
| yr wythfed<br>**8fed** | y nawfed<br>**9fed** | y degfed<br>**10fed** | yr unfed ar ddeg<br>**11eg** | y deuddegfed<br>**12fed** | y trydydd ar ddeg<br>**13eg** | y pedwerydd ar ddeg<br>**14eg** |
| y pymthegfed<br>**15fed** | yr unfed ar bymtheg<br>**16eg** | yr ail ar bymtheg<br>**17eg** | y deunawfed<br>**18fed** | y pedwerydd ar bymtheg<br>**19eg** | yr ugeinfed<br>**20fed** | yr unfed ar hugain<br>**21ain** |
| yr ail ar hugain<br>**22ain** | y trydydd ar hugain<br>**23ain** | y pedwerydd ar hugain<br>**24ain** | y pumed ar hugain<br>**25ain** | y chweched ar hugain<br>**26ain** | y seithfed ar hugain<br>**27ain** | yr wythfed ar hugain<br>**28ain** |
| y nawfed ar hugain<br>**29ain** | y degfed ar hugain<br>**30ain** | yr unfed ar ddeg ar hugain<br>**31ain** | | | | |

# Gweithgaredd



Ydych chi'n cofio sut i ddweud y dyddiad yn llawn Gymraeg?

7/7

Gorffennaf y seithfed

neu

y seithfed o Orffennaf

| | | |
|---|---|---|
| 10/10 | ........................ | ........................ |
| 2/6 | ........................ | ........................ |
| 21/12 | ........................ | ........................ |
| 13/4 | ........................ | ........................ |
| 15/8 | ........................ | ........................ |
| 31/9 | ........................ | ........................ |

# Gwirio'r Atebion





# Defnyddio cwestiynau yn y dosbarth



# Ydych chi'n cofio'r rheolau iaith?



Sylwch ar y treigladau !

Gwyliwch y treigladau wrth gwestiynu ar lafar yn y dosbarth.

| RHAGENW GOFYNNOL | TREIGLAD | ENGHRAIFFT |
|---|---|---|
| SUT+ BERF | DIM | SUT **t**aloch chi am y llyfrau? |
| SUT + ENW | MEDDAL | SUT **g**ar ydy o? |
| PRYD + BERF | DIM | PRYD **b**yddwch yn mynd? |
| BLE + BERF | DIM | BLE **b**uoch chi? |
| BETH + BERF | MEDDAL | BETH **dd**ywedodd y rhiant? |
| PWY + BERF | MEDDAL | PWY **f**ydd yno? |
| PA + ENW | MEDDAL | PA **dd**isgyblion? |
| PA + ENW+ BERF | MEDDAL | PA **l**yfrau ddarllenaist ti? |
| P'UN + BERF | MEDDAL | P'UN **b**rynoch chi? |
| FAINT + BERF | MEDDAL | FAINT **d**alon nhw? |
| PRYD + BERF | DIM | PRYD **c**yrhaeddon nhw? |
| PAM | DIM | PAM dest ti i'r ysgol? |

# Ymarfer …

Gwaith Pâr – Gofynnwch 5 cwestiwn caeëdig i'ch gilydd – cofiwch eu hateb yn gywir!

Meddyliwch am 5 cwestiwn caeëdig i'w gofyn ar ddechrau'r bore neu'r prynhawn yn eich dosbarthiadau. Sut gallwch chi sicrhau bod y plant yn eu hateb yn gywir?

# Gorchmynion cadarnhaol

Rydyn ni'n defnyddio'r gorchmynion unigol i siarad ag un plentyn a'r rhai lluosog pan rydyn ni'n siarad â grŵp.

Mae'r unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **-a** ar ddiwedd bonyn y ferf,

e.e. *Rheda!* *Cerdda!*

Fel arfer, mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **-wch** ar ddiwedd bonyn y ferf, e.e. *Rhedwch!* *Sgipiwch!*



Rhaid cofio treiglo’n feddal yn syth ar ôl ffurf orchmynnol.

- Darllena lyfr!
- Siaradwch Gymraeg!
- Cofiwch wneud hyn!



# PAID!



## Gorchmynion negyddol

- Mae'r gorchymyn unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **Paid â** o flaen y ferf ac mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **Peidiwch â** o flaen y ferf. Mae hyn yn achosi treiglad llaes, e.e.

**Paid â ch**erddded! **Peidiwch â ph**oeni!

- Dydyn ni ddim yn defnyddio'r treiglad hwn bob tro ar lafar.
- Os oes llafariad yn dilyn 'â', byddwn yn defnyddio 'ag' yn lle. e.e

**Paid ag** agor y ffenest!

**Peidiwch ag** anghofio eich llyfrau!

# PAID/ PEIDIWCH

| | |
|---|---|
| Paid â chweryla. | Peidiwch â chweryla. |
| Paid â bod yn ddigywilydd. | Peidiwch â bod yn ddigywilydd. |
| Paid â cherddded yn y mwd. | Peidiwch â cherddded yn y mwd. |
| Paid â meiddio. | Peidiwch â meiddio. |

# Rhaid

- Rhaid i fi fynd
- Rhaid i ti wrando
- Rhaid iddo fe ddysgu
- Rhaid iddi hi gysgu
- Rhaid i ni fwyta
- Rhaid i chi ddarllen
- Rhaid iddyn nhw fwynhau
- *Rhaid i Nia a Huw gofio

i fi
i ti
iddo fe
iddi hi
i ni
i chi
iddyn nhw
i Tom

# Amser ymarfer

# Mewn grwpiau

Meddyliwch am orchmynion addas ar gyfer gwers / gweithgareddau penodol ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad penodol.

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

# Adolygu'r Treigladau

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education
RHAGORiaith
www.athrofa.cymru

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Sawl rheol y gallwch chi gofio?...



# Eich tro chi …

**Meddyliwch …**
Beth ydy 'swydd' y gair yn y frawddeg?



**Cofiwch!**
Fwy na thebyg – dim ond y gair yn union o flaen y gair all achosi treiglad.

Darllenwch y cliwiau er mwyn darganfod beth yw'r rheolau ar gyfer y treiglad meddal…

## Cliw 1…

Ei got e OND ei chot hi
Ei lyfr e OND ei llyfr hi

## Cliw 2…

Dwy ferch a dau fachgen
Dwy gadair a dau fwrdd

## Cliw 3…

Yn dda OND yn rhedeg
Yn ddiddorol OND yn darllen

# Dyma'r cliw ond beth ydy'r rheol?

**Meddyliwch …**
Beth ydy 'swydd' y gair yn y frawddeg?

## Cliw 4 …

Am ddeg o'r gloch.
O weithio.
I weld.
Wrth fynd.



## Cliw 5 …

Dy fag a dy got di
Dy wers a dy ddosbarth di

**Meddyliwch …**
Beth ydy 'swydd' y gair yn y frawddeg?

## Cliw 6 …

Bore da Flwyddyn 9.
Gwrandewch yn astud ferched!

# Rhai rheolau'r treiglad meddal …

Bydd TM ar ôl y rhagenw 'ei' (gwr) …
ei **g**ot e
ei **f**ag e

Bydd enwau yn treiglo'n feddal ar ôl 'dau' a 'dwy'

Bydd TM ar ôl y rhagenwau 'dy' …
dy **b**ensil
dy **w**raig

Bydd ansoddeiriau yn treiglo'n feddal ar ôl 'yn' (yn golygu 'is')

Bydd treiglad. meddal ar ôl yr arddodiaid

Rhaid treiglo'n feddal wrth gyfarch …
Bore da, **b**lant
**G**yfeillion, croeso i'r …

# Ei (gwr) a dy *(his & your)*



**Bydd ei – sy'n golygu *his*, a dy *(your)* yn achosi treiglad meddal bob tro!**

Cyfieithwch y brawddegau hyn…

1. Jac has lost his book.
2. Take your laptop out of your bag.
3. Where are your colouring pencils?
4. Why haven't you done your homework?
5. The teacher is in his classroom.

# Dau a dwy

Dylai'r clychau ganu bob tro gyda'r ddau air yma! Mae'r ddau air yn achosi Treiglad Meddal.

**Cofiwch rhaid i ni wybod pa un i'w ddefnyddio hefyd!** Mae pob enw unigol (noun) yn Gymraeg yn wrywaidd (masculine) neu'n fenywaidd (feminine). Bydd y geiriadur yn gallu dweud wrthon ni beth yw cenedl y gair – eg (enw gwrywaidd), eb (enw benywiadd).

Rydyn ni'n defnyddio dwy gydag enwau benywaidd a dau gydag enwau gwrywaidd:

e.e. dau fachgen dwy ferch

Rhowch 'dau' neu 'dwy' o flaen yr enwau hyn…

**1. cadair** **2. dosbarth** **3. taflen** **4. llyfr**

**5. cyfrifiadur** **6. plentyn** **7. gwers** **8. tasg**

# Arddodiaid *(prepositions)*

Mae **treiglad meddal** ar ôl …

| Arddodiad | Enghraifft |
|---|---|
| am | am **dd**eg o'r gloch |
| ar | ar **dd**iwedd y dydd |
| at | Ewch at **dd**rws y pennaeth. |
| gan | gan **b**wy? (*by who?)* |
| heb | heb **fe**ddwl (*without thinking)* |
| i | Croeso i **G**ymru. |
| o | Rydw i'n dod o **L**anelli. |
| dan | Mae'r bag dan **dd**esg yr athro. |
| dros | dros **r**yddid collasant eu gwaed (yr anthem) |
| drwy | Cerddwch drwy **dd**rws yr ystafell. |
| wrth | wrth **g**wrs! |
| hyd | hyd **dd**iwedd y cwrs (*until)* |

# Yn y dosbarth …




Y Blwch Llythrennedd

o

gwersi

Y Blwch Llythrennedd

o

golau

| |
|---|
| fy + treiglad trwynol |
| dy + treiglad meddal |
| ei (g) + treiglad meddal |
| ei (b) + treiglad llaes |

Y Blwch Llythrennedd

coffi

| |
|---|
| fy + treiglad trwynol |
| dy + treiglad meddal |
| ei (g) + treiglad meddal |
| ei (b) + treiglad llaes |

Y Blwch Llythrennedd

teulu

# Cyfarch!

Rhaid i ni dreiglo pan rydyn ni'n cyfarch pobl, yn siarad â nhw…

Gwrandewch yn ofalus, **f**erched!
Bore da, **b**lant.
**F**oneddigion a boneddigesau – croeso i Barc y Sgarlets.
Cerddwch yn y coridorau, **f**echgyn.
Eisteddwch yn dawel, **f**lwyddyn 9.

Dydyn ni ddim yn treiglo enwau priod cofiwch!
e.e. **Eistedda'n dawel Dafydd!** (nid Ddafydd ☺)

# Defnyddio ‘yn’ (is / are) + disgrifiad

| YN + ansoddair / enw= **TREIGLAD MEDDAL** (ond nid ll/rh) | YN + berfenw **DIM TREIGLAD** |
|---|---|
| yn **b**wysig | yn cysgu |
| yn **d**awel | yn bwyta |
| yn **f**awr | yn rhedeg |
| yn **g**yflym | yn tacluso |
| yn **ll**wyddiannus | yn darllen |
| Mae Huw yn **f**achgen da | yn prynu |
| Mae Mr Rhys yn **b**ennaeth effeithiol | yn meddwl |

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David | Yr Athrofa Centre for Education Addysg i Gymru | Education for Wales RHAGORiaith www.athrofa.cymru

# Byddwch yn ofalus gydag 'yn'!

- yn = *is (predicative)* – Sut?/ Beth? + **Treiglad meddal**

Rydw i'n **b**ump oed.
Mae e'n **dd**rwg.
Mae hi'n **g**yffrous.

- yn = *in* (preposition): Ble? + **Treiglad trwynol**

Rydw i'n byw yng **Ngh**aerdydd.
Rydw i'n byw ym **Mh**enarth.
Rydw i'n dysgu ym **m**lwyddyn 2.

# Canu a threiglo



- Edrychwch ar eiriau'r caneuon poblogaidd – ble mae'r treigladau?
- Ydych chi'n gallu dweud pam eu bod nhw wedi treiglo?

Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio..

Mi welais Jac y Do
Yn eistedd ar ben to
Het wen ar ei ben a
dwy goes bren…

Roedd Ffrans o wlad Awstria yn iodlan ar fynydd mawr…

Pwy sy'n dwad dros y bryn yn ddistaw ddistaw bach? Ei farf yn llaes a'i wallt yn wyn…

Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun…

Rho dy ddwylo ar dy ben ar dy ben…

# y + enw benywaidd unigol

**Treiglad meddal ar ôl 'y' :**

y **g**adair
y **dd**awns
y **b**rifathrawes
y **f**am
y **d**aith
y **w**ers
y **f**reuddwyd

**OND: X ll / rh**
y **ll**ygoden
y **rh**aglen

# Defnyddio y / 'r = the

## y + enw gwrywaidd

**DIM treiglad**

y cwrs
y gliniadur
y llyfr
y papur
y bwyd
y mwydyn
y trên
y drws
y rhedwr

## y + enw lluosog

**DIM treiglad = DIM CENEDL/ *GENDER***

y cadeiriau
y gwersi
y llygod
y pensiliau
y bwydydd
y merched
y teithiau
y dogfennau
y rhaglenni

| Tabl Treiglo | Meddal | Trwynol | Llaes |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | / | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

# Y Treiglad Trwynol

# Y cytseiniaid sy’n treiglo

| | | | |
|---|---|---|---|
| p → mh | | b → m | |
| t → nh | | d → n | |
| c → ngh | | g → ng | |

# Beth sy'n achosi'r treiglad trwynol?

**Mae'r treiglad trwynol yn digwydd…**

**1) …ar ôl y rhagenw 'fy'**

**e.e. fy mhen, fy nhrwyn, fy ngheg**

Gall fod yn ferf neu'n enw'n dilyn 'fy', e.e.

Fy **nh**rosglwyddo (trosglwyddo)

Fy **ngh**yhuddo (cyhuddo)

**Rhowch y rhagenw fy o flaen yr enwau canlynol:**

**chwaer** **bag** **dad** **cwningen** **garddwrn** **telyn** **cadair** **pêl** **brawd**

# Beth sy'n achosi'r treiglad trwynol?

**Mae'r treiglad trwynol yn digwydd…**

**2) ….ar ôl yr arddodiad yn pan fydd yn golygu 'in'.**

e.e. **yng Ngh**aerdydd, **ym Mh**enarth, **yn Nh**onyrefail, yn **N**e Cymru

Wnaethoch chi sylweddoli beth sy'n digwydd i'r **yn** cyn rhai geiriau sy'n treiglo'n drwynol?

Cofiwch: nid oes rhaid i hyn fod yn enw lle, gall fod yn sefyllfa arall:

'Yng **ng**wersi Mrs Jones'

'Yng **ng**ofal yr aseswr'

'Ym **m**eddwl hon'

| Tabl Treiglo | Meddal | Trwynol | Llaes |
|---|---|---|---|
| p | b | mh | ph |
| t | d | nh | th |
| c | g | ngh | ch |
| b | f | m | |
| d | dd | n | |
| g | / | ng | |
| ll | l | | |
| m | f | | |
| rh | r | | |

# Y Treiglad Llaes

# Y treiglad llaes: Rheol 1

**Ar ôl y rhagenw:**

- **ei**

**sy'n cyfeirio at feddiant benywaidd (her)**.

Byddwch yn ofalus – does dim ots beth ydy cenedl yr enw sy'n dilyn y rhagenw, at bwy mae'r rhagenw'n cyfeirio sy'n pennu'r treiglad...

e.e. ei **chi** hi
ei **chath** hi

**Ar ôl y cysyllteiriau:**

# Y treiglad llaes: Rheol 2

- **a** (“and”)
- **â**

Ar ôl y rhifolion:

# Y treiglad llaes: Rheol 3

- tri
- chwe

# Adolygu!





| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rydw i'n dysgu ym mlwyddyn 5 mewn ysgol yng Nghaerffili.<br><br>PAM? | Mae plant blwyddyn 5 yn blant da. Maen nhw'n dawel ac yn frwdfrydig.<br><br>PAM? | Merch dda<br>Ysgol Gymraeg<br>Gwers ddiddorol<br><br>PAM? | un gwningen<br>un gath<br>un falwoden<br>OND un ci<br>PAM? | Dau gi a dwy gath<br><br>Dau lyfr a dwy wers<br><br>PAM? |
| ar ddiwedd y wers<br>Croeso i ddosbarth Mr Puw<br><br>PAM? | te a choffi<br><br>PAM? | Weloch chi'r gêm rygbi?<br><br>PAM? | Fwytais i ddim siocled.<br>Ddarllenais i ddim llyfr.<br><br>PAM? | Phrynais i ddim siocled.<br>Thalais i ddim.<br>Chanais i ddim.<br><br>PAM? |
| Rhaid i chi fynd<br>Ga i fynd?<br><br>PAM? | y wers<br>y ferch<br>y gadair ond y bwrdd<br><br>PAM? | Mae fy nghar i yn y garej.<br>Mae fy nhŷ i yn anferth.<br><br>PAM? | Mae dy gar yn y garej<br>Mae dy dŷ di yn anferth!<br><br>PAM? | Mae ei lyfr e ar y bwrdd.<br>Mae ei wersi e'n ardderchog.<br><br>PAM? |
| Mae ei llyfr hi ar y bwrdd OND Mae ei phensiliau ar y bwrdd.<br><br>PAM? | ei hysgol hi ond<br>ei ysgol e<br><br>PAM? | Pa liw ydy ffrog Siw?<br><br>PAM? | Beth wylioch chi ar y teledu neithiwr?<br><br>PAM? | Helo bawb!<br>Bore da blant!<br>Hwyl fawr blant!<br><br>PAM? |
| Y bwrdd hwn / y wers hon/ y plant hyn<br><br>PAM? | banana ac oren a mefus ac afal<br><br>PAM? | Y bachgen<br>Yr eliffant<br>Mae'r eliffant yn llwyd<br><br>PAM? | Y ferch ond y llygoden<br>Yn dda ond yn lliwgar<br>un gath ond un llygoden<br><br>PAM? | Mae'r plant yn dda<br>ond<br>Mae'r plant yn dawnsio<br><br>PAM? |

# Cwestiwn 1 – Cywiro



## Asesiad Ysgrifenedig
## Tasg 1 – Cywiro

# Asesiad Ysgrifenedig
# Tasg 1 – Cywiro

- Bydd darn tua 150 o eiriau ar y papur, yn cynnwys **tua 22 o wallau** gramadegol. Bydd disgwyl i chi gywiro'r gwallau a nodi'r cywiriadau mewn **print trwm.**
- Nid yw tynnu sylw at y gwallau'n ddigon mae'n rhaid eu cywiro i ennill y marc.
- Nid oes angen esbonio'r rhesymau dros gywiro.
- Ni ddylid aralleirio na newid arddull y darn.
- Bydd Cysill yn canfod rhai o'r gwallau yn unig.
- Byddwch yn ofalus – bydd Cysill yn camgywiro rhai pethau hefyd neu bydd angen i chi ddewis opswn cywir.



## Meini Prawf Tasg 1

*Bydd Cysill yn adnabod 4 gwall, a rhoddir ½ marc yr un am gywiro'r gwallau hyn.*

*Rhoddir 1 marc yr un am gywiro'r 18 gwall ychwanegol*

*(cyfanswm posibl, 20 marc):*
*(20% o farciau'r papur)*



# Cyngor wrth ateb Tasg 1



- Copiwch a gludwch y paragraff o dan y cwestiwn gwreiddiol.
- Yna gwnewch eich newidiadau mewn print trwm (bold)
- Does dim angen newid arddull y darn dim ond cywiro gwallau yn unig.
- Peidiwch a threulio gormod o amser ar y cwestiwn hwn. 20 o farciau yw gwerth y cwestiwn felly y cyngor ydy tua 20 munud ar y fwyaf.
- Gallwch chi ateb y cwestiynau y yr asesiad mewn unrhyw drefn.
- Os ydych chi'n cywiro gormod fyddwch chi ddim yn colli marciau. Dim ond y cywiriadau cywir sy'n cael eu marcio.

# Math o wallau

Mae'r math o wallau sy'n codi yn y cwestiwn hwn yn gallu bod yn amrywiol iawn. Ond dyma i chi rai syniadau:



- Amser cywir y ferf
- Ystyr gair /geiriau bach

e.e. mai / mae, yw / i'w, mewn / yn

- Rhagenwau
- Arddodiaid
- Berfenwau a'r arddodiaid
- Sillafu / gwallau teipio
- hwn / hon
- Treiglo ar ôl enw benywaidd. e.e. y gath ddu hon.

- Treiglad meddal ar ôl Cyfarchion e.e. Prynhawn da bawb.
- Trefnolion e.e. Dyddiadau
- Rhifau + treigladau
- Geiriau unigol / lluosog
- Idiomau / ymadroddion Cymreig.

# Enghraifft CBAC (ar-lein)

- https://web.download.wjec.co.uk/surpass/packaged-

Hoffech chi'n byw yn America a'r hyn o bryd, tybed? Mae ein hobsesiwn â'r lle'n mynd yn ôl dros amser maeth, ac mae'r cysylltiadau'n rhy gormod i'w rhestru. Cymeroch er enghraifft yr iaith Seisnig. Os gwrandewch chi ar raglenni teledu, mae'r iaith y siaredir gan actorion Americanaidd yn dra gwahanol o iaith actorion o Loegr. Mae'r arbenigwyr ieithyddol yn ragweld y byddwn ni'n siarad â'r un acen ymhen canrif neu lau.

Mae hi'n edrych yn debygol fod gwleidyddwyr y wlad hon yn dilyn yr un trywydd â'r un a welwyd yn yr Unol Daleithiau rhwng 2016 â 2020. Yn lle trafod, cyfaddawdu a dod mewn cytundeb, mae aelodau etholedig yn ceisio sgorio pwyntiau gwleidyddol yn erbyn eu gilydd. Dyna reality bod yn wleidydd yn yr hunfed ganrif ar hugain. Yn anffoddus, trodd y gwaith o lywodraethu'n gêm yw chwarae, nid yn alwedigaeth. Rhan o'r broblem yw bod gwir busnes pwerus aden dde'n rheoli'r papurau newydd – y dynion yn y dirgel sy'n gwthio'r farn gyffredin i gyfeiriadau sy'n ei gynorthwyo i wneud elw. Rhan arall o'r broblem yw bod yr arweinydd a fu yn y grym yn America'n corddi'r dyfroedd, ond o leuad fydd dim rhaid gwrando ar hwnnw mwyach.

- Y ffordd orau i ymarfer ydy ateb cyn-bapurau.
Cofiwch edrych ar yr atebion model hefyd.

- Mae croeso i chi hefyd anfon eich atebion ar e-bost i dderbyn adborth pellach.

# Adnoddau

- Cyflwyniadau ar bob testun.
- Fideos esbonio CCC:

https://sway.office.com/vE4lkqDw0tAGN1K4?ref=Link

- Cyn- bapurau (gwefan CCC)

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/adnoddau/papurauenghreifftiol tsi/

Ymarferion Gloywi Iaith

- https://sway.office.com/m04alwrSInwv0WYI?ref=Link

- Enghreifftiau o atebion a sylwadau yr arholwr

https://adnoddau.s3.eu-west-2.amazonaws.com/pdfs/Prawf+Ysgrifennu'r+Dystysgrif+Sgiliau+Iaith.pdf